“Fel y bu yn nyddiau Noa, felly hefyd y bydd yn nyfodiad Mab y Dyn.”
(Mathew 24:37)

Dyma Iesu’n sôn am ei ailddyfodiad, gwirionedd sy’n cael ei esgeuluso’n ormodol gennym yn y dyddiau hyn. Mae’n dweud wrthym y bydd llawer heb baratoi ar gyfer ei ddyfodiad, ac oherwydd hynny cânt eu gadael ar ôl i golled tragwyddol. Mae’n fater o bwys tragwyddol, felly, ac mae’n dyled i’r Arglwydd yn fawr am ein rhybuddio.

Dyddiau Noa

Mae Iesu yn cyfeirio meddwl ei wrandawyr yn ôl i hanes cyfarwydd o’r Hen Destament. Byddai pob un ohonynt yn gwybod am y dilyw ac am arch Noa, fel y mae llawer ohonom ni yng Nghymru heddiw. Roedd y mwyafrif wedi dod i’r casgliad bod Noa wedi colli arni yn llwyr. Roedd yn adeiladu llong oedd yn fwy na rhai o’r llongau ar gyfer mordeithwyr sydd gennym heddiw, a hynny ar dir sych, gan ddisgwyl dŵr i syrthio o’r awyr (glaw), er nad oedd neb wedi gweld hynny erioed o’r blaen.

Er gwaethaf hyn, bu i Noa ddal ati gyda’i brosiect dwyfol am gan mlynedd (ac mae’r wraig yn cwyno fy mod i’n hir yn cwpla prosiectau D.I.Y.!)
Ond cyn hir, mae’n debyg bod pobl wedi mynd ymlaen â’u bywyd, gan anwybyddu ‘Noa’r Nytar’.

Dywed yr Arglwydd eu bod wedi parhau i briodi a byw bywyd teuluol. Beth sy’n bod ar hynny? Dim. Does dim byd o’i le ar fyw bywyd bob dydd, ond pan ddaw hyn yn gyfanrwydd ein bodolaeth, heb ystyried ein perthynas â Duw, gan anwybyddu’r ffaith y byddwn yn gorfod ateb i Dduw ryw ddydd, daw’n fywyd gwag gyda diogelwch ffals a hunanoldeb oer.

Ac mae’n dyddiau ni yn debyg. Pa mor dderbyniol yw sôn am Ddydd y Farn heddiw? Pwy sydd yn disgwyl am ailddyfodiad llythrennol yr Arglwydd Iesu unrhyw bryd? Oni fyddai trwch poblogaeth Cymru yn chwerthin am ben y fath syniadau?

Dyfodiad Crist

Ond fel y daeth dilyw yn nyddiau Noa, fe ddaw yr Arglwydd Iesu. Os yw Gair Duw yn dweud bod ailddyfodiad yn dod, fe fyddem yn wallgof i’w anwybyddu a gwrthod ei gredu.

Pwy sydd yn mynd i roi trefn terfynol ar yr holl anghyfiawnder a drygioni sydd wedi bodoli ar hyd y canrifoedd os na ddaw Iesu Grist yn Farnwr y byw a’r marw?

Sut y gwyddom na fydd yr annuwiol yn llwyddo ac na fydd Satan yn fuddugol, os na ddychwel ein Pencampwr? ***Fel y daeth y dilyw, fe ddaw Mab y Dyn!*** Ond y cwestiwn mawr yw: a fyddwn yn barod?

Bydd rhai yn gofyn: *'Sut fydd yr ailddyfodiad a'r Farn yn gweithio? Sut all yr holl filiynau sydd wedi byw trwy hanes ymddangos gerbron Duw ac ymhle?'* Dydw i ddim yn gwybod nac yn poeni am hyn. Ond, rywsut, dwi ddim yn gweld problem i Greawdwr nef a daear.

Bydd eraill yn dweud: *'Ond does dim golwg o'r ailddyfodiad. Mae'r oesoedd wedi treiglo mlaen heb newid.'* Mae Pedr yn dweud fod Duw wedi ymyrryd o'r blaen trwy foddi'r byd, pam na all ymyrryd eto trwy ei losgi? **"a thrwy ddŵr y dinistriwyd byd yr oes honno, sef dŵr y dilyw. Gan yr un gair hefyd y mae nefoedd a daear yr oes hon wedi eu gosod mewn stôr ar gyfer y tân; y maent ar gadw hyd Ddydd barn a distryw yr annuwiol"** (2 Pedr 3.6-7).

Gadawyd y mwyafrif y tu allan i'r arch am nad oeddent yn barod i gredu Duw a throi ato mewn edifeirwch pan gawsant rybudd Noa. Bydd llawer yn cael eu gadael y tu allan i Iesu Grist, yr arch ysbrydol, am na fynnant droi at Dduw a chymodi ag Ef trwy Grist.

Deffrowch!

Yn ei ras a'i drugaredd, mae Duw wedi paratoi iachawdwriaeth i ni. Darparwyd arch gan Noa, ac mae Gwaredwr i ni yn Iesu Grist. Fel yr oedd diogelwch rhag y dilyw yn yr arch, mae achubiaeth rhag cosb tragwyddol Duw yn uffern yn Iesu Grist.

Mae Duw wedi paratoi dihangfa, ac mae'n ein rhybuddio yn ei ras. Gwaith pob gweinidog, Efengylydd a Christion yw seinio'r larwm! Rhaid i ni ddyfalbarhau i gynnig a chymeradwyo Crist i'n cenhedlaeth ni, gan nad ydym yn dymuno bod neb yn golledig.

Gadewch i ni ddal ati, heb gael ein parlysu gan ddifaterwch pobl, eu hanghrediniaeth, na hyd yn oed eu gwawd a'u dirmyg dall.

Dyma Frawd a anwyd inni
erbyn c'ledi a phob clwy';
ffyddlon ydyw, llawn tosturi,
haeddai'i gael ei foli'n fwy:
rhyddhawr caethion, Meddyg cleifion,
ffordd i Seion union yw:
ffynnon loyw, Bywyd meirw,
arch i gadw dyn yw Duw. (Ann Griffiths)